# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# BRWYDRAU A RHYFEL

Trwy gydol y Canol Oesoedd roedd y gallu i ymladd ac arwain eraill i'r frwydr yn bwysig iawn i'r tywysogion.

Mae canu mawl Cymreig yn rhoi llawer o fri i'r bobl hyn am eu llwyddiannau, heb roi llawer o sylw i'r milwyr cyffredin, er eu bod nhw'n rhan bwysig iawn o fyddinoedd yr oesoedd canol.

Roedd y cyfnod yn un rhyfegar a pheryglus, a defnyddiwyd amrywiol fathau o arfau ac arfwisg nid yn unig gan filwyr, ond hefyd gan y bobl gyffredin i amddiffyn eu hunain.

Roedd saethwyr wedi sefydlu eu hunain yn ystod y Croesgadau ym Mrwydr Acre yn 1189 – ac ystyriwyd bwâu i fod yn arfau ymladd effeithiol dros ben.

Cafodd milwyr Cymreig eu recriwtio i'r Croesgadau yn 1188 gan Archesgob Caergaint a Gerallt Gymro wrth iddynt deithio o gwmpas y wlad.



Brwydr Hastings - Gan Dan Koehl - Tapestry de Bayeux, CC BY-SA 3.0,
https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=658776

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd rhaid i farchogion Normanaidd ac Eingl-Norman yr Oesoedd Canol dreulio blynyddoedd yn hyfforddi i ddysgu trin arfau, trin ceffylau a rhyfela. Yn aml yn aelodau o'r dosbarth bonedd, roedd marchogion yn gyfrifol am amddiffyn tiroedd eu harglwydd.


Dyma ddisgrifiad Gerallt o'r Cymry yn ymladd yn erbyn yr Eingl-Normaniaid:

" er gwaethaf iddynt gael eu trechu heddiw, a'u herlid wedi lladdfa fawr, eto'i gyd byddant yn barod yfory am ymgyrch arall, yn ddi-ddychryn wedi'u colledion a'u sarhad.... nid yw chwant bwyd nac oerfel yn eu hatal, nid yw ymladd yn eu blino, neu adfyd yn gwneud iddynt ddigalonni; wedi iddynt gael eu goresgyn y maen nhw'n codi eto ar unwaith, yn barod i wynebu peryglon y frwydr unwaith eto. Felly, mae'n hawdd i'w gorchfygu mewn brwydr unigol, ond yn anodd iawn ennill rhyfel yn eu herbyn"

Ystyriwyd saethwyr Cymreig i fod yn ardderchog ac, yn ddiweddarach, roeddent yn cael eu recriwtio i wasanaethu yn y fyddin Seisnig i ymladd yn Ffrainc.



Ar ôl 1320: bwa hir hyd 6', wedi'i hymestyn i'r clust



13th C torlun pren o saethwyr De Cymru
https://www.bowyers.com/bowyery_longbowOrigins.php

# MYSTERIOUS AFAN CUDD



Darlun o'r 15fed ganrif hwyr gan Jean Froissart o Frwydr Crecy – O Bennod CXXIX o Groniclau Jean Froissart, ffynhonnel yr esiampl http://www.maisonstclaire.org/resources/chronicles/froissart/book_1/ch_126-150/fc_b1_chap129.html, Public Domain, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=438361

Y testun wedi'i addasu o wefannau:
http://www.gutorglyn.net/gutoswales/cy/index.php
https://www.castlewales.com/warfare.html
https://www.twcenter.net/forums/showthread.php?349942-Welsh-Warfare-in-The-Medieval-Period
https://www.bowyers.com/bowyery_longbowOrigins.php